# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Teulu Bach**

**Merthyr Tudful**

**23 Mehefin 2022**

23/6/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Teulu Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Ruth Parker |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Click or tap here to enter text.<br>05/7/21 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio’r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio’r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae’r bobl sy'n byw yn Nheulu Bach yn cael gofal a chymorth gyson gan dîm o weithwyr gofal sefydledig. Mae’r bobl yn cael eu cefnogi i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth ac yn cael eu hannog i ddilyn eu diddordebau a'u hobïau. Mae'r dogfennau gofal yn rhoi lefel dda o wybodaeth ynglŷn ag anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae hyfforddiant staff, asesiadau risg trylwyr a phroses recriwtio ddiogel yn gymorth i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn hapus yn gweithio i'r gwasanaeth ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â rhedeg y cartref o ddydd i ddydd ac mae ganddo oruchwyliaeth dda dros ddarparu'r gwasanaeth. Mae'r amgylchedd yn gyfforddus, yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae gan y gweithwyr gofal berthynas gadarnhaol gyda'r bobl yn eu gofal ac maent yn deall eu hanghenion unigol. Gwelsom ryngweithio cynnes rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal a gallem weld bod y gweithwyr gofal yn gyfarwydd ag anghenion, gofynion a threfniadau arferol y bobl. Cynigir dewis i'r bobl ac maent yn medru cynllunio eu harferion dyddiol a pha weithgareddau y dymunant gymryd rhan ynddynt.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n sail i arferion diogel. Caiff risgiau i’r bobl eu hasesu'n drwyadl a'u rheoli'n effeithiol. Mae’r gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant diogelu ac yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer mynegi pryderon. Mae goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd yn rhoi cyfle i’r gweithwyr gofal drafod unrhyw faterion sydd ganddynt â'u rheolwr. Mae proses recriwtio ddiogel yn sicrhau bod gan y gweithwyr gofal y sgiliau cywir a'r agwedd gywir i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed.

Mae amgylchiadau unigol y bobl yn cael eu hystyried. Mae cynlluniau personol yn tynnu sylw at ganlyniadau ar gyfer y bobl ac yn nodi strategaethau i'w cyflawni yn y modd gorau. Mae adolygiadau cynhwysfawr yn monitro cynnydd ac yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cyfle i'r bobl gymryd rhan yn y broses o gynllunio eu gofal ac yn ymgynghori â nhw'n gyson ynghylch eu dewisiadau.

Mae amgylchedd cartrefol yn helpu i gefnogi llesiant y bobl. Mae'r amgylchedd yn lân ac wedi’i gynnal a'i gadw'n dda. Mae rhaglen barhaus o gynnal a chadw ac atgyweirio yn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau yn ddiogel. Mae'r bobl yn medru gwneud dewisiadau mewn perthynas â'u hardaloedd byw personol. Gwelsom fod eitemau a oedd o bwys iddynt i'w gweld yn ystafelloedd gwely'r bobl. Mae ardaloedd cymunol yn olau a gellir eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau neu i ymlacio. Mae gardd wrth gefn yr adeilad gydag ardal eistedd y gall y bobl gael mynediad ati os dymunant.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal parhaus da. Mae trosiant staff y gwasanaeth yn isel. Mae mwyafrif y gweithwyr gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda. Maent yn medru adnabod unrhyw newid yn eu hiechyd a'u llesiant a gweithredu yn unol â hynny. Rhoddodd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth adborth ganmoliaethus ynghylch y gweithwyr gofal gan ddefnyddio geiriau fel "*hyfryd*" "*dymunol*" a "*da*" i'w disgrifio. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Roedd grŵp o bobl yn cael eu cynorthwyo i fynychu barbeciw a oedd yn cael ei gynnal mewn cartref gofal arall ar ddiwrnod ein harolygiad. Yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, anogir pobl i gyfrannu at gynnal a chadw'r cartref drwy helpu gyda thasgau domestig. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth ei fod wedi cael lleoliad gwaith mewn archfarchnad leol. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r unigolyn i fynd i'r lleoliad gwaith yn wythnosol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi'r bobl i fynychu digwyddiadau cymdeithasol, tripiau diwrnod a gwyliau.

Mae cynlluniau personol yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Gwnaethom samplu nifer o gynlluniau a chanfod eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac ar yr unigolyn sy'n golygu eu bod yn benodol i anghenion gofal a chymorth pob person. Mae cynlluniau personol hefyd yn cynnwys asesiadau risg sy'n nodi peryglon posib ac yn darparu cyfarwyddiadau clir i'r gweithwyr gofal ar sut i gadw'r bobl yn ddiogel. Caiff asesiadau risg eu hadolygu yn aml er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodir ynddynt yn gyfredol a bod y bobl yn derbyn y gofal gorau posibl.

Mae trefniadau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Yn ogystal ag asesiadau risg wedi'u teilwra, mae gan y gwasanaeth ystod o drefniadau i amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn hyfforddiant diogelu a hyfforddiant craidd ac arbenigol arall. Mae hyn yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal o ansawdd da. Gwnaethom siarad â nifer o weithwyr gofal ac roedd pob un ohonynt yn gwybod y broses ar gyfer mynegi pryderon. Mae polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn cynnwys y canllawiau mwyaf diweddar. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisïau a chanfod bod angen gwybodaeth bellach ar rai ohonynt. Roedd hyn yn cynnwys polisi meddyginiaeth yr oedd angen ei ddiweddaru fel ei fod yn cynnwys gwybodaeth ynghylch storio a rhoi cyffuriau a reolir a meddyginiaeth 'yn ôl yr angen' (PRN). Gwnaethom drafod hyn â'r unigolyn cyfrifol a roddodd sicrwydd i ni y bydd y polisïau yn cael eu hadolygu. Mae polisi rheoli heintiau ac asesiad risg COVID-19 yn nodi arferion gwaith diogel ar gyfer y gweithwyr gofal. Mae gan y cartref gyflenwad da o gyfarpar diogelu personol, ac mae'r gweithwyr gofal yn dilyn y canllawiau cyfredol ynghylch profi ar gyfer COVID-19.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol a chysurus sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwnaethom edrych ar gofnodion sy’n ymwneud â diogelwch amgylcheddol a chanfod ardystiadau cyfredol ar gyfer cynnal a chadw gwasanaethau allweddol megis nwy, trydan a nodweddion diogelwch tân. Mae'r unigolyn cyfrifol hefyd yn ystyried diogelwch amgylcheddol yn ystod ymweliadau monitro chwarterol.

Gwnaethom gynnal arolygiad gweledol o'r cartref a'i gyfleusterau ac ni wnaethom nodi unrhyw beryglon. Mae safon gyffredinol glanweithdra a hylendid yn dda. Mae'r gegin wedi cael sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae hyn yn awgrymu safonau da iawn mewn perthynas â hylendid bwyd. Mae ardaloedd cymunol wedi eu dodrefnu a'u haddurno'n addas. Mae'r bobl yn medru gwneud dewisiadau mewn perthynas â'u hardaloedd byw personol. Gwelsom bod ystafelloedd gwely'r bobl wedi eu haddurno yn ôl eu dewis a bod eitemau a oedd o bwys iddynt i'w gweld yno.

Mae’r bobl yn elwa ar arferion diogel. Mae sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel. Mae meddyginiaeth yn cael ei chadw dan glo a dim ond personél awdurdodedig sydd â mynediad iddi. Mae ffeiliau a gwybodaeth gyfrinachol arall yn cael eu storio yn unol â chanllawiau arferion gorau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae’r gweithwyr gofal yn mwynhau gweithio i'r gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Gwnaethom siarad â nifer o weithwyr gofal a roddodd adborth canmoliaethus ynghylch y rheolwr. Dywedodd un “*mae'n hawdd mynd at y rheolwr”,* ac un arall *“mae'r rheolwr yn dda iawn gyda'r preswylwyr a'r staff, ac mae'n gefnogol iawn”.* Mae cofnodion sy'n ymwneud â goruchwyliaeth ac arfarniadau yn dangos bod y gweithwyr gofal yn derbyn y lefelau a argymhellir o gefnogaeth ffurfiol. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn rhoi cyfle i weithwyr gofal drafod materion sy'n gysylltiedig â gwaith ac i fonitro eu perfformiad.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae'r broses recriwtio yn gadarn. Gwnaethom archwilio nifer o ffeiliau personél a chanfod bod pob gwiriad cyn cyflogaeth gofynnol wedi ei wneud. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau cyn cyflogi. Mae pob cyflogai newydd yn cael cyfnod sefydlu strwythuredig ac mae rhaglen barhaus o hyfforddiant a datblygiad sy'n cynnig hyfforddiant craidd ac arbenigol. Rhoddodd y gweithwyr gofal adborth cadarnhaol ynghylch hyfforddiant, gan nodi ei fod yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt fedru darparu gofal a chymorth o ansawdd da.

Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd ar waith i adolygu cynnydd ac i lywio datblygiad y gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn arfer dull ymarferol o reoli'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl a'r gweithwyr gofal wrthym fod cydberthnasau cadarnhaol rhyngddynt a’r tîm rheoli. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cyflawni’i ddyletswyddau penodol i’r funud. Gwelsom dystiolaeth bod yr unigolyn cyfrifol yn cyfarfod yn gyson â'r bobl a'r gweithwyr gofal i drafod y gwasanaeth a ddarperir ac yn archwilio'r gwahanol ddogfennau yn gyson gan gynnwys cynlluniau personol a ffeiliau personél. Cynhelir adolygiad ansawdd gofal bob chwe mis. Cyhoeddir canfyddiadau'r adolygiad mewn adroddiad ansawdd gofal. Gwnaethom edrych ar yr adroddiad ansawdd gofal diwethaf a chanfod ei fod yn nodi amcanion y gwasanaeth, y cryfderau a'r ffyrdd y gallai wella yn glir.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/07/2022